

Dim delweddau
map



ALLWEDD

- | | |
|---|--|
| Taith Taf | Parcio |
| Gorsaf Drenau | Loc y Fforest (LF) a
Loc Canolig (LC) |
| Eglwys Gadeiriol
Llandaf | Bythynnod
Sunnybank |
| Tŷ Mawr | Ffordd Dramiau |
| Gwaith Tunplat
Melin Gruffudd a
Nant Gyflenwi | Ivy House |
| Pwmp Dŵr Melin
Gruffudd | Twmpath Coginio i r
Dwyrain o Deras Taf |
| Bwthyn Derw | Pont Haearn |
| Hen Bont Llwybr
Tynnu i Gamlas Sir
Forganngw | Castell Coch |
| Forest Hall | Fferm Gelynis |
| Fferm y Fforest a
Bythynnod | Mwnt Castell
Pentre-poeth |
| Camlas Sir Forganngw | Pont Ynys |

H A N E S

TAITH TAF

Bwriad y daflen hon yw rhoi gwybodaeth i chi am Hanes Coridor Taf yng Nghaerdydd. Mae'n ymdrin â'r ardal rhwng Llandaf a Thongwynlais.

Os cerddwch ar hyd yr afon, gwelwch nifer o adeiladau a nodweddion diddorol fydd yn rhoi cliwiau am orffennol Caerdydd i chi.

Cliciwch yma neu ar yr eiconau am ragor o wybodaeth Hanes Cyffredinol.

I gael rhagor o wybodaeth am gyfleoedd eraill i fwynhau cefn gwlad ar garreg eich drws, cysylltwch â Thîm Cefn Gwlad y Cyngor.

Ffôn: 029 2087 3230

E-bost: countryside@caerdydd.gov.uk

Gwefan:

www.caerdydd.gov.uk/cefn gwlad

www.caerdydd.gov.uk/bioamrywiaeth

HANES CYFFREDINOL

Mae dwy afon, y Taf Fechan a'r Taf Fawr yn dechrau ym Mannau Brycheiniog ac yn uno ym Merthyr Tudful i ffurfio Afon Taf.

Mae Cwm Taf yn gyfoethog mewn hanes ac mae wastad wedi bod yn llwybr masnach pwysig. Ar ddechrau'r 18fed ganrif roedd wedi cael ei ganoli'n bennaf ar hyd y ffordd blwyf rhwng Llandaf a Thongwynlais gan ddefnyddio ceffylau a mulod pwn. Cafodd hyn ei ddisodli gan reilffordd ysgafn effeithiol oedd yn cael ei gludo gan geffylau yn ystod y Chwyldro Diwydiannol. Adeiladwyd y rheilffordd ar hyd ochr ddwyreiniol Afon Taf rhwng Gwaith Haearn Pentyrch a Gwaith Tunplat Melin Gruffydd.

Yn 1798, adeiladwyd Camlas Sir Forgannwg a daeth yn gyswllt pwysig i symud glo a mwyn haearn o Ferthyr Tudful a Chwm Rhondda i ddoc Caerdydd. Yn ystod y cyfnod hwn, daeth Caerdydd yn borthladd allforio glo mwyaf y byd.

Mae hefyd nifer o adeiladau rhestredig a henebion ar hyd Coridor Taf gan gynnwys Eglwys Gadeiriol Llandaf, Olwyn Ddŵr Melin Gruffydd a Chastell Coch.

Ewch am dro ar hyd yr Afon ac fe welwch sawl cliw i orffennol Caerdydd.



EGLWYS GADEIRIOL LLANDAF

Mae Eglwys Gadeiriol Llandaf yn adeilad rhestredig Gradd I yng nghalon Pentref Llandaf. Ei henw ffurfiol yw Eglwys Gadeiriol Sant Pedr a Sant Paul. Mae'n debyg y cafodd eglwys garreg gyntaf Llandaf ei hadeiladu yn yr unfed ganrif ar ddeg ac yn ôl Llyfr Llandaf roedd yn adeilad bychan, 28 troedfedd o hyd, 15 troedfedd o led a 20 troedfedd o uchder gyda chromfan 12 troedfedd o uchder ar un ochr. Ers hynny mae'r eglwys gadeiriol wedi'i hailadeiladu a'i hadfer bum gwaith.

Os ddilynwch y grisiau i fyny o'r Eglwys Gadeiriol fe welwch Lawnt yr Eglwys Gadeiriol a nifer o hen adeiladau, adfeilion a henebion y mae rhai ohonynt yn ffurfio rhan o Ardal Gadwraeth Llandaf.



Tŷ MAWR

Mae Tŷ Mawr yn adeilad rhestredig Gradd II ac yn nodedig am fod y tŷ cynharaf wedi'i goroesi ym Morgannwg sy'n dyddio'n ôl i 1583. Ychydig iawn o'r tŷ sydd ar ôl heblaw am y waliau sylfaenol, un lle tân i fyny'r grisiau a'r lle tân yn yr ardd. Dywedwyd mai tŷ o gangen teulu Matthews Radur oedd hwn.

GWAITH TUNPLAT MELIN GRUFFYDD A NANT GYFLENWI

Adeiladwyd Gwaith Tunplat Melin Gruffydd yn 1749 ac roedd ar neu ger safle hen felin flawd a oedd yn gweithredu mor bell yn ôl â diwedd y 1100au. Melin Gruffydd oedd y ffatri dun weithredol fwyaf yn y DU, tan yr adeiladwyd Gwaith Tun Trefforest a ddaeth i fod y mwyaf yn y 1830au.

Cafodd y melinau tun eu pweru gan ddŵr a dynnwyd o Afon Taf ar hyd nant gyflenwi Melin Gruffydd. Roedd y nant gyflenwi hefyd yn cludo haearn crai o Waith Haearn Pentyrch tan tua 1815. Ar ôl y cyfnod hwn, defnyddiwyd ffordd dram Pentyrch a oedd yn croesi Afon Taf dros y Bont Haearn. Caewyd loc y nant gyflenwi yn barhaol yn 1871 ond mae olion i'w gweld hyd heddiw.

Caewyd y gwaith tunplat yn 1957, ac erbyn heddiw yr unig arwyddion o'i fodolaeth yw'r gwely sydd bron yn sych bellach o nant gyflenwi wreiddiol Melin Gruffydd sydd yn dal i redeg i lawr o Afon Taf uwchben cored Radur, a Phwmp Dŵr Melin Gruffydd a gafodd ei adfer yn ddiweddar. Mae safle'r gwaith ei hun wedi'i glirio'n llwyr a bellach mae ystâd o dai modern yno ar ochr orllewinol Tŷ Mawr Road.

GWAITH TUNPLAT MELIN GRUFFYDD A
NANT GYFLENWI



Melingriffith Tin Works, Whitchurch, Cardiff. 123

Photo gredyd:
www.whitchurchandllandaff.co.uk



PWMP DŴR MELIN GRUFFYDD

Mae Pwmp Dŵr Melin Gruffydd yn heneb gofrestredig a chafodd ei adeiladu yn 1810 i ailgyflenwi Camlas Sir Forgannwg yn dilyn anghydfod rhwng cwmni'r Gamlas a gwaith Tunplat Melin Gruffydd. Roedd cystadleuaeth gynyddol o'r rheilffyrdd yn golygu dirywiad araf yn nhraffig y gamlas ac erbyn 1890 nid oedd bellach yn broffidiol. Cafodd ei chau yn y pendraw yn 1942.

Adferwyd y Pwmp Dŵr gan Oxford House yn y 1970au a chafodd ei drosglwyddo i'r Cyngor yn y 1980au. Gwnaed gwaith adnewyddu pellach arno gan Cadw a Chyngor Caerdydd yn 2010.

PWMP DŴR MELIN GRUFFYDD

BWTHYN DERW

Mae Bwthyn Derw yn adeilad rhestredig Gradd II. Credir y gallai'r bwthyn ddyddio'n ôl i'r 17eg ganrif ac mae'n debyg y cafodd ei wella yn y 19eg ganrif ac eto yn ddiweddarach pan osodwyd ffenestri dalennog ynddo. Mae'n bwysig oherwydd y cysylltiadau â Gwaith Tunplat Melin Gruffudd a dywedir mai cartref y swyddogion ydoedd. Yn y llun gallwch weld Camlas Morgannwg a oedd yn rhedeg ar hyd ochr y bythynnod.



HEN BONT LLWYBR TYNNU I GAMLAS SIR FORGANNWG

Mae'r bont wedi'i lleoli ar hyd ochr y llwybr troed i bont reilffordd Afon Taf ger Olwyn Ddŵr Melin Gruffydd. Pont haearn bwrw yw hi ac ar un adeg roedd yn cynnwys llwybr tynnu Camlas Sir Forgannwg dros orlif o'r gamlas i Waith Tunplat Melin Gruffydd.

HEN BONT LLWYBR TYNNU I
GAMLAS SIR FORGANNWG

FOREST HALL

Ar un adeg roedd tŷ mawr ger mynedfa Fferm y Fforest lle mae'r maes parcio erbyn hyn. Roedd yn cynnwys nifer o adeiladau allanol ac wedi'i amgylchynu gan goed pinwydd enfawr. Tenant Forest Hall oedd Mr Spence Thomas sef rheolwr gwaith Tunplat Melin Gruffydd.

FOREST HALL

FFERM Y FFOREST A BYTHYNNOD

Caiff Fferm y Fforest ei rheoli gan Gyngor Caerdydd a chafodd ei dynodi yn Barc Gwledig yn 1992 oherwydd ei swyddogaeth ym maes twristiaeth a hamdden. Mae'r ardal yn bwysig iawn o ran natur – mae'n cynnwys safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig a gwarchodfa natur leol.

Mae'r ffermdy gwreiddiol a'r bwthyn yn gartref i Ymddiriedolaeth Gwirfoddolwyr Cadwraeth Prydain (BTCV) ac wrth eu hymyl mae Canolfan Wardeiniaid Fferm y Fforest. Mae grŵp o breswylwyr lleol brwdfrydig wedi ffurfio Grŵp Cyfeillion i helpu Cyngor Caerdydd i wella'r ardal hon.



Photo gredyd:: www.whitchurchandllandaff.co.uk

Fferm y Fforest fythynnod (hen)

FFERM Y FFOREST BYTHYNNOD (ERBYN HYN)

CAMLAS SIR FORGANNWG

Adeiladwyd Camlas Morgannwg yn 1798 gan grŵp o ddynion busnes o Ferthyr Tudful, dan arweiniad Richard Crawshay i ymdopi â'r cynnydd mewn masnach a symudiad glo a mwynau haearn o Gyfoedd Merthyr a Rhondda. Cafodd effaith ddramatig ar bwysigrwydd Cwm Taf ac estyniad porthladd Caerdydd. Roedd y Gamlas yn orchest beiranyddol enfawr, gan gwmpasu 25 milltir a chodi i dros 80 metr uwchben lefel y môr drwy adeilad 52 loc.

Buan iawn y daeth yn orlawn ac yn y pendraw cafodd gystadleuaeth gan Reilffordd Taf.

Mae rhan o'r Gamlas yn dal i fodoli heddiw gan gynnwys dau loc (Loc Uchaf a Loc Canolig) ar hyd ochr Fferm y Fforest ac mae bellach yn Warchodfa Natur Leol.



Photo gredyd:: www.whitchurchandllandaff.co.uk

Camlas Morgannwg ger Loc a Bwthyn Derw ar Melin Gruffydd tua1940



Photo gredyd:: www.whitchurchandllandaff.co.uk

Mae Camlas ger Melin Gruffydd tua1940



CAMLAS MORGANNWG (ERBYN HYN)



Photo gredyd:: www.whitchurchandllandaff.co.uk

Gamlas ym Mharc Hailey tua1950



Llwybr halio dros Gamlas ar ffyrdd Fferm y Fforest

LOC Y FFOREST A'R LOC CANOLIG

Mae dau loc yn parhau i fodoli ar hyd ochr y Gamlas yn y rhan hon. Gallwch weld capstan yn Loc y Fforest lle'r oedd cychod camlas yn arfer agori tra'n aros eu tro i anelu at y gogledd. Eto os dilynwch y gamlas i'ch dde fe welwch y Loc Canolig a gweddillion bythynnod y Loc Canolig.



LOC Y FFOREST

BYTHYNNOD SUNNYBANK

Wrth i chi gerdded i'r gogledd ar hyd Camlas Morgannwg o Forest Farm Road fe welwch wal gerrig ar eich dde. Dyma safle Bythynnod Sunnybank a oedd yn gartref yn wreiddiol i weithwyr yn y gwaith Tunplat Melin Gruffydd oedd gerllaw.



Photo gredyd:
www.whitchurchandllandaff.co.uk

BYTHYNNOD SUNNYBANK TUA1940

FFORDD DRAMIAU

Os byddwch chi'n cerdded heibio canolfan y Wardeiniaid ac yn aros ar yr ochr dde ar hyd Taith Taf tuag at Orsaf Radur, gellir gweld rhan o'r ffordd dramiau wreiddiol ar ochr dde'r llwybr.



MELIN GRUFFYDD A PHENTYRCH DRAMFFORDD


IVY HOUSE

Mae Ivy House wedi'i restru yn ffermdy rhanbarthol Gradd II ac mae wedi'i leoli rhwng Afon Taf a'r A470 a gellir cyrraedd ato drwy danffordd. Fe welwch fod llawer o'r nodweddion gwreiddiol wedi para ac roedd yn perthyn cyn 1791 i William Price, perchennog Gwaith Haearn Pentyrch.

TWMPATH COGINIO I'R DWYRAIN O DERAS TAF

Twmpath bychan yw'r unig beth sydd ar ôl o aelwyd goginio o'r oes haearn yng Nghoedwig Radur. Yma byddai cerrig poeth wedi'u trochi mewn dŵr tan fydd y dŵr yn berwi. Yna byddai'r dŵr berwedig yn cael ei ddefnyddio i goginio. Cafodd y twmpath ei ddarganfod yn 1911 ac mae tystiolaeth bod y safle yn cael ei ddefnyddio yn y cyfnodau cynnar. Ymddengys fod ffynnon sanctaidd yn dyddio'n ôl o'r 10fed ganrif hefyd yn bodoli ar y safle, ac yn y canoloesoedd byddai Coedwig Radur yn rhan o barc ceirw muriog Llys Radur, cartref hanesyddol teulu Mathew. (cyf: old.radyr.org.uk)

Mae'r twmpath coginio yn Heneb Gofrestredig.



PONT HAEARN

Mae'r Bont Haearn yn croesi'r Taf rhwng Tongwynlais a Phentre poeth. Pont haearn bwrw yw hi ac fe'i hadeiladwyd ar gyfer y tramiau a oedd yn teithio rhwng Gwaith Haearn Pentyrch a Gwaith Tunplat Melin Gruffydd yn y 1800au.

Os byddwch chi'n cerdded heibio canolfan y Wardeiniaid yn Fferm y Fforest ac yn aros ar yr ochr dde ar hyd Taith Taf tuag at Orsaf Radur, gellir gweld rhan o'r ffordd dramiau wreiddiol ar ochr dde'r llwybr.



PONT HAEARN

CASTELL COCH

Castell canoloesol yw Castell Coch a grëwyd gan 3ydd Ardalydd Bute a'i bensaer William Burgess. Dechreuwyd ar y gwaith adeiladu yn 1875 a chafodd ei gwblhau yn 1891 ar safle cadarnle Normanaidd. Mae'r castell 'tylwyth teg' wedi'i addurno â mowldinau addurnol, cerfluniau goreuog a phaentiadau ffug ganoloesol. Defnyddiwyd y castell fel lle i fyw yn yr haf hyd nes marwolaeth Arglwydd Bute yn 1900. Caiff ei reoli bellach gan Cadw ac mae ar agor i'r cyhoedd.

Mae'n heneb gofrestredig.

FFERM GELYNIS

Mae Ffermdy Gelynīs a'r bwthyn yn adeilad rhestredig Gradd II*. Yn ôl cofnodion cafodd ei adeiladu gan Hugh Lambert, Ffrancwr a oedd yn feistr haearn Wealden o Tonbridge yng Nghaint a ddaeth i'r ardal gan Syr Henry Sidney a sefydlodd waith haearn newydd a ffwrnais ar safle Pentyrch ger y Garth yn 1564. Rhes adeiladau Fferm Gelynīs yw'r adeilad rhestredig Gradd II sy'n gorwedd ar onglau dde i'r ffermdy a'r bwthyn.

Ar hyn o bryd mae Fferm Gelynīs yn cael ei ddefnyddio fel llety gwely a brecwast a fferm ffrwythau yn ystod misoedd yr haf – ewch i www.gelynīsfarm.co.uk am ragor o wybodaeth.

Gallwch ymweld â Fferm Gelynīs drwy gerdded ar hyd y llwybr dros y rheilffordd o Bentre-poeth neu ar draws y Bont Haearn, oddi ar Taith Taf ar Ochr yr Eglwys Newydd (ger Asda).



FFERM GELYNIS TŶ

MWNT CASTELL PENTRE-POETH

Mae Mwnt Castell Pentre-poeth yn heneb gofrestredig ac fe'i adnabyddir yn lleol fel Mwnt a Beili Radur. Mae'n 20 troedfedd o uchder gyda 50 troedfedd o ddiamedr ar draws y top. Mae'r heneb hon yn dyddio o'r cyfnod canoloesol.

Byddai mwnt fel arfer yn cael ei wneud o'r pridd a gymerwyd o ffos a gloddiwyd o amgylch y mwnt neu'r castell. Byddai fel arfer yn cael ei adeiladu gyda strwythurau pren a chlai ac yna strwythur pren neu garreg o'r enw gorthwr. Roeddent yn boblogaidd yn y 11eg a'r 12fed ganrif gan eu bod yn cael eu hystyried yn ffurf effeithiol o amddiffyn ond eto roeddent yn rhad ac yn gyflym i'w hadeiladu heb yr angen am lafur crefftus.

MWNT CASTELL PENTRE-POETH

Playing Field

**Morganstown
(Treforgan)**

The Tynant Inn
(PH)

Garden
Centre

Club

GVC

GELYNIS TERRACE NORTH

HEOL SYR LEWIS

Gelynis Terrace

Hall

MWNT CASTELL PENTRE-POETH

Atgynhyrchwyd o'r map Arolwg Ordnans gyda chaniatâd
Rheolwr Llyfrfa'i Mawrhydi © Hawlfraint y Goron.
Mae atgynhyrchu anghyfreithlon yn ymryd ar hawlfraint y
Goron a gall arwain at erlyniad neu weithredu sifil.


Cyngor Sir Caerdydd. 100023376 (2011)

PONT YNYS

Strwythur rhestredig Gradd II sy'n
gysylltiedig â gwaith Pentyrch a Melin
Gruffydd ar ochr orllewinol y Taf.



PONT YNYS



H A N E S

TAITH TAF

Bwriad y daflen hon yw rhoi gwybodaeth i chi am Hanes Coridor Taf yng Nghaerdydd. Mae'n ymdrin â'r ardal rhwng Llandaf a Thongwynlais.

Os cerddwch ar hyd yr afon, gwelwch nifer o adeiladau a nodweddion diddorol fydd yn rhoi cliwiau am orffennol Caerdydd i chi.

Cliciwch yma neu ar yr eiconau am ragor o wybodaeth Hanes Cyffredinol.

I gael rhagor o wybodaeth am gyfleoedd eraill i fwynhau cefn gwlad ar garreg eich drws, cysylltwch â Thîm Cefn Gwlad y Cyngor.

Ffôn: 029 2087 3230

E-bost: countryside@caerdydd.gov.uk

Gwefan:

www.caerdydd.gov.uk/cefn gwlad

www.caerdydd.gov.uk/bioamrywiaeth